

ASTUDIAETH ACHOS

CELF AR Y BLAEN

PROSIECT

PROSIECT SIOPA BROAD STREET

Kate Strudwick sy'n dweud wrthym am weithio mewn partneriaeth i gyflawni prosiect Siopa Broad Street ym Mlaenafon.

AM Y PROSIECT

Roedd y prosiect yn archwilio sut y gallai'r Egwyddorion Ansawdd gael eu cynnwys mewn "prosiectau a etifeddiwyd" oedd wedi cael eu dyfeisio ar gyfer agenda arall. Roedd y prosiect hwn yn creu arddangosfa deithiol ryngweithiol yn cynnwys aelodau hŷn o gymuned Blaenafon i ddarganfod hanes Broad Street, canolfan fasnach Blaenafon.

Roedd y prosiect yn bartneriaeth rhwng Celf ar y Blaen, CBS Torfaen (Rhaglen Treftadaeth Canol Tref Blaenafon), Natasha James (artist digidol) a Penny Turnbull (Artist Tecstilau).

SUT WNAETHOCH CHI DDEFNYDDIO'R EGWYDDORION ANSAWDD?

Roedd yr Egwyddorion Ansawdd yn rhoi model clir i ni o'r elfennau y dylid eu hystyried wrth gynllunio a chyflawni prosiect yn llwyddiannus ac wrth ddarparu'r profiadau mwyaf cadarnhaol i'r holl gyfranogwyr, partneriaid a'r artistiaid oedd yn cymryd rhan. Fe wnaethom ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i helpu i ddod â'r prosiect "yn ôl ar y llwybr iawn", fel ein bod yn gwneud y mwyaf o effaith a gwaddol y gwaith ac o'r cyfle hwn i weithio ym Mlaenafon.

Wnaethom ddefnyddio'r Egwyddorion Ansawdd i gefnogi ein strategaeth o arafu'r broses er mwyn creu lle i gyfranogwyr fod yn rhan o unrhyw benderfyniadau, fel ei fod yn dod yn nes at "gelfyddyd gymunedol" yn hytrach na dim ond "celfyddyd yn y gymuned". Wnaethom hefyd defnyddio'r adnoddau Egwyddorion Ansawdd i gynyddu sgiliau a hyder yn y celfyddydau cyfranogol ymysg ein partneriaid Rhaglen Dreftadaeth.

PWY OEDD YN CYMRYD RHAN?

Tîm artistig Celf ar y Blaen – cyfuniad o aelodau staff, gwirfoddolwr a'r ddau artist oedd yn rhan o'r prosiect. Rydym yn aml yn gweithio yn ôl ein greddf, heb ystyriaeth ffurfiol i'r prosesau dan sylw. Mae'r adnoddau Egwyddorion Ansawdd yn "rhestr wirio" ddefnyddiol sy'n amlygu'r meysydd all beidio bod mor gryf neu heb eu hystyried mor drylwyr ag y dylent. Roedd hefyd yn rhoi'r posibilrwydd i ni edrych ar gip o "ble ydym ni nawr" pan wnaethom ni dderbyn y comisiwn a "ble hoffem ni fod", gan ein helpu i ganolbwyntio ar y meysydd oedd angen mwy o sylw. Ar y dechrau, roedd cynllun y prosiect wedi ei lunio heb gyfraniad gan y cyfranogwyr. Wnaeth yr Egwyddorion Ansawdd ein cefnogi i sicrhau bod y prosiect yn canolbwyntio mwy ar gyfranogwyr ac yn cael ei arwain ganddynt.

Partneriaid y Prosiect – cyflwynwyd yr Egwyddorion Ansawdd i Swyddog Prosiectau Cymunedol y Rhaglen Dreftadaeth yn y cyfarfod cyntaf un. Roedd yr adnoddau Egwyddorion Ansawdd yn dangos i'n partneriaid bod yna fframwaith proffesiynol tu ôl i'n ffordd o feddwl, yn pwysleisio pwysigrwydd y cyfranogwyr o'r cychwyn ac yn sicrhau bod gan y partneriaid hyder yn ein ffordd o weithio.

BETH WNAETHOCH CHI EI DDYSGU?

Er y dylai'r Egwyddorion Ansawdd, yn ddelfrydol, gael eu hystyried o'r dechrau, fe wnaethom ddysgu ei bod yn bosibl defnyddio'r Egwyddorion Ansawdd fel cymorth i "ddatrys" prosiect a all fod wedi ei ddylunio ar frys neu heb ystyriaeth briodol i'r holl elfennau sy'n angenrheidiol i roi'r cyfle gorau i brosiect lwyddo.

Rydym hefyd wedi ei gweld yn ddefnyddiol defnyddio'r adnoddau i gefnogi ein tîm staff ac artistiaid i gael gwell dealltwriaeth o'r elfennau y mae'n nhw'n aml yn eu gwneud fel rhan o'r patrwm, heb ystyried pam eu bod yn bwysig.

Fe wnaethom ddysgu ei bod yn ddefnyddiol i ni gael ffordd glir o esbonio ein prosesau i'n partneriaid – a rhoi model iddynt y gallent ei hailadrodd yn rhwydd eu hunain yn y dyfodol, gan eu helpu i greu gwell cynlluniau prosiect o'r dechrau.

Fe wnaethom ddysgu bod ein partneriaid prosiect yn gwerthfawrogi eglurder yr adnoddau ac roedden nhw'n hapus i arddel yr egwyddorion. Credwn ei fod hefyd wedi eu helpu i'n hystyried ni fel "gweithwyr proffesiynol" a chynyddu eu gallu i ymddiried ynom ni.



ArtWorks
Cymru

AWGRYMIADAU DA

Pan fyddwch yn gweithio gyda phartneriaid nad yw eu hagenda bob amser yr un fath â'ch un chi, mae'n ddefnyddiol cael Egwyddorion Ansawdd fel canllaw o ran sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Mae hyn yn cynnig cyddestun ar gyfer trafod gwahanol safbwyntiau a dod o hyd i dir cyffredin - ac mae hyn yn debygol o gynorthwyo gwell ymarfer cydweithredol.

RHAGOR O WYBODAETH

head4arts.org.uk